

Ystadegau sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Y cyd-destun o ran polisi/gweithredu

Mae'r pennawd hwn a'r tablau yn crynhoi'r ystadegau sydd ar gael ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn cael eu diweddarau bob chwarter â'r amcangyfrifon diweddaraf o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, a bob blwyddyn â phrif gyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf (mis Gorffennaf) a data arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru (mis Ebrill). Defnyddir yr ystadegau y tu mewn i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau o ran lefel a chyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Cafodd y [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid](#) ei ddatgan ym mis Ionawr 2013, a chyhoeddwyd cynllun gweithredu ym mis Hydref 2013. Mae'r Fframwaith yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o leihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar chwe elfen allweddol, sef: Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio; Gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth iddynt; Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc; Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc; Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth; a Gwell atebolrwydd ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Mae dangosyddion sy'n ymwneud â'r gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn rhan o'r asesiad blynnyddol o gynnydd y *Strategaeth Tlodi Plant*.

I. Crynodeb o'r ffynonellau data

a. Cyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Disgrifiad	Y data hyn yw'r dull diffiniol o fesur cyfraddau'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.
Dulliau o'i defnyddio	<ul style="list-style-type: none">• Y gyfres hon yw'r brif ffynhonnell ystadegol o amcangyfrifon o nifer a chyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.• Mae cyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf yn darparu data i'r rhai sy'n llunio polisiau a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i fonitro tueddiadau yn ôl oedran a rhywedd, ac effaith ymyriadau â'r farchnad lafur ac addysg ar bobl ifanc.• Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwnnw wedi ei amlinellu yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Strategaeth Tlodi Plant.• Caiff y data eu defnyddio i gefnogi'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n ymwneud â 'chanran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
Ffynhonnell gyhoeddedig	Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru, Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur
Y prif ffynonellau	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (Llywodraeth Cymru) Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Llywodraeth Cymru) Cofnod Myfyrwyr (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)) Y Brifysgol Agored Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth breswyl ac amcanestyniadau o'r boblogaeth (y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru)
Y cyfnod diwethaf a gwmpaswyd	Diwedd 2017 (dros dro)
Y tro diwethaf y'i cyhoeddwyd	Gorffennaf 2018
Y tro nesaf y'i cyhoeddir	Gorffennaf 2019 (dros dro)

b. Cyfres yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Disgrifiad	Amcangyfrif blynyddol blwyddyn dreigl o gyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yw'r gyfres hon.
Dulliau o'i defnyddio	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gyfres hon yn darparu data mwy amserol na'r Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol ac fe'i defnyddir i roi arwydd o'r tueddiadau yng nghyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng Datganiadau Ystadegol Cyntaf. Nid oes modd ei chymharu'n uniongyrchol â chyfres y Datganiadau Ystadegol Cyntaf ac mae'r amcangyfrifon yn llai cadarn. • Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a gyhoeddir fesul chwarter, wedi'u seilio ar ddata arolygon ac felly ceir amrywioldeb oherwydd gwallau samplu. Ar gyfer y cyfnod 12 mis diweddaraf, ymatebodd tua 900 o bobl ifanc 16-18 oed a 1,600 o bobl ifanc 19-24 oed i'r arolwg. • Hefyd, oherwydd strwythur yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae cryn orgyffwrdd rhwng blynyddoedd treigl dilynol. Dylid ystyried tueddiadau ac nid newidiadau rhwng amcangyfrifon blynyddoedd treigl dilynol. Gwneir cymariaethau â'r un adeg flwyddyn yn ôl. Yn achos is-grwpiau, mae meintiau'r samplau'n gymharol fach ac yn destun gwallau samplu gymharol fawr, ac felly yn gyffredinol defnyddir cyfartaleddau tair blwyddyn dreigl. • Mae'r diffiniad cysonedig a ddefnyddir i lunio amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn peri bod modd cymharu i ryw raddau ar draws gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau yn y dull gweithredu o ran cyhoeddi, er enghraifft defnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, grwpiau oedran gwahanol, defnyddio oedran academaidd neu'r oedran gwirioneddol, a gwahaniaethau mewn methodoleg addasu a ddefnyddir i ddsrannu gwerthoedd coll; yn ogystal ag effaith systemau addysg gwahanol ledled y DU. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth gymharu â'r DU.
Y ffynhonnell gyhoeddedig a'r brif ffynhonnell	Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
Y cyfnod diwethaf a gwmpaswyd	Y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 3 2018

Y tro diwethaf y'i cyhoeddwyd	Cyhoeddir yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddir y gyfres ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Ionawr 2019
Y tro nesaf y'i cyhoeddir	Cyhoeddir yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ym mis Mawrth 2019, cyhoeddir y gyfres ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Ebrill 2019

c. Arolwg o gyrchfannau disgyblion o ran y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Disgrifiad	Amcangyfrif blynyddol yw'r gyfres hon o nifer y rhai sydd newydd adael Blwyddyn 11 (16 oed) ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Hydref ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.
Dulliau o'i defnyddio	Ni ellir defnyddio cyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf na'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i ddarparu amcangyfrifon ar lefel Awdurdod Lleol oherwydd maint bach y samplau yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r fethodoleg a ddefnyddir i lunio amcangyfrifon y Datganiad Ystadegol Cyntaf. Mae'r gyfres hon yn rhoi arwydd o lefel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar lefel Awdurdodau Lleol. Dylid ei defnyddio dim ond yn achos pobl ifanc sy'n 16 oed. Nid oes modd ei chymharu'n uniongyrchol â chyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf na chyfres yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth oherwydd gwahaniaethau mewn diffiniadau.
Y ffynhonnell gyhoeddedig a'r brif ffynhonnell	Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael ysgolion yng Nghymru (Gyrfa Cymru)
Y cyfnod diwethaf a gwmpaswyd	Hydref 2017
Y tro diwethaf y'i cyhoeddwyd	Ebrill 2018
Y tro nesaf y'i cyhoeddir	Ebrill 2019 (dros dro)

II. Diffiniadau

Addysg a hyfforddiant

Yn achos amcangyfrifon y Datganiad Ystadegol Cyntaf: maent wedi'u seilio ar y rhai sydd wedi'u cofrestru ar gwrs mewn ysgol, coleg Addysg Bellach, sefydliad Addysg Uwch (gan gynnwys y Brifysgol Agored), neu gyda darparwr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Yn ogystal, amcangyfrifir nifer y rhai mewn cyflogaeth sy'n ymgymryd â hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

Yn achos yr amcangyfrifon sydd wedi'u seilio ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: ymatebwyr i'r Arolwg hwnnw sydd:

- yn ymgymryd â phrentisiaeth ar hyn o bryd; neu
- ar gynllun cyflogaeth neu hyfforddiant y llywodraeth, ar hyn o bryd; neu
- yn gweithio neu'n astudio tuag at unrhyw gymwysterau ar hyn o bryd; neu
- wedi ymgymryd ag unrhyw addysg neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd yn y 4 wythnos flaenorol; neu
- wedi cofrestru ar hyn o bryd ar unrhyw gwrs addysg amser llawn neu ran-amser ac eithrio dosbarthiadau hamdden ac sy'n dal i fynychu neu'n aros i'r tymor (ail)gychwyn.

Cyflogaeth

Defnyddir yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i amcangyfrif y gyfran sydd mewn cyflogaeth yn achos yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y Datganiad Ystadegol Cyntaf a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Yn ychwanegol at hynny, defnyddir statws cyflogaeth o ddata cofrestru Ôl-16 yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf.

O'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae ymatebwyr mewn cyflogaeth os ydynt:

- wedi'u cyflogi; neu'n
- hunangyflogedig; neu
- ar raglenni cyflogaeth neu hyfforddiant y llywodraeth; neu'n
- weithiwr teulu di-dâl.

Anabledd

Yn unol â safonau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth sydd wedi'u cysoni, mae'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn adlewyrchu diffiniad cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer pobl anabl. (Seiliwyd y data o'r blaen ar y rhai sydd ag anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith).

[Rhagor o wybodaeth am safonau cysonedig](#). [Saesneg yn unig]

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

III. Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ansawdd

Arolwg o aelwydydd yw'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r arolwg yn ceisio gwybodaeth am amgylchiadau personol yr ymatebwyr, gan gynnwys eu statws o ran y farchnad lafur a'u gweithgareddau ym maes addysg a hyfforddiant. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cyfuno'r samplau a gyfnerthwyd o'r Arolwg o'r Llafurlu ac mae'n darparu data pedwar chwarter treigl. Mae setiau data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn deillio o sampl o oddeutu 21,000 o bobl o oedran gweithio ledled Cymru, gan gynnwys isafswm o tua 700 o bobl o oedran gweithio ym mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn achos pobl ifanc 16-18 oed, mae tua 900 o ymatebwyr yn y sampl ledled Cymru. Yn yr un modd, yn achos pobl ifanc 19-24 oed, mae tua 1,600 o ymatebwyr yn y sampl ledled Cymru.

Gan mai o arolwg y daw'r data, amcangyfrifon ar sail sampl yw'r canlyniadau ac felly maent yn destun amrywioldeb samplu i wahanol raddau, hynny yw, mae gwir werth unrhyw fesuriad i'w gael mewn ystod amrywiol o amgylch y gwerth amcangyfrifedig. Mae cyfyngau hyder 95 y cant bras wedi'u cyfrifo ar gyfer amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o gyfran y bobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Cyfrifwyd y rhain gan ragdybio hapsampl bwysol syml, ac nid ydynt yn ystyried dyluniad y sampl. O ganlyniad, dim ond arwydd o'r cyfwng hyder a geir ganddynt. Ar ben hynny, mae'r dull addasu ar gyfer dosrannu gwerthoedd coll yn creu maint sampl cyfanredol artifisial a ddefnyddir wrth gyfrifo cyfyngau hyder. Mae'r amrywioldeb samplu yn cynyddu wrth i fanylder y data gynyddu, ac felly, yn achos y grwpiau oedran o dan sylw, sef 16-18 a 19-24, mae'r amcangyfrifon ar gyfer is-grwpiau a rhanbarthau wedi'u seilio ar gyfartaleddau tri chyfnod.

[Rhagor o wybodaeth am ansawdd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#). [Saesneg yn unig]

Mae Tabl 1 yn dangos, o 2006, y tebygrwydd yn y lefelau a'r duedd o ran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a welir yn gyffredinol yng nghyfres y Datganiad Ystadegol Cyntaf a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; 3 phwynt canran yw'r gwahaniaeth mwyaf a geir.

IV. Amseroldeb

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf diweddaraf yn darparu data newydd ar gyfer 2016 a data dros dro ar gyfer 2017. Mae'r amcangyfrifon dros dro yn defnyddio'r data gorau ar gyfer 2017 sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch pob agwedd ar gyfranogi; mae hyn yn cynnwys peth data terfynol, peth data dros dro, a pheth modelu.

V. Cymaroldeb

Caiff y dull a ddefnyddir i ddiffinio'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ei gysoni â methodoleg gytunedig ar lefel y DU ar gyfer llunio amcangyfrifon o'r bobl ifanc hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn [papur a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) [Saesneg yn unig].

VI. Amcangyfrifon islaw lefel Cymru

Nid yw'n bosibl dadgyfuno amcangyfrif y Datganiad Ystadegol Cyntaf o ran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant hyd at lefel Awdurdodau Lleol. Y rheswm am hyn yw'r ffordd y caiff y data eu rhoi at ei gilydd gan ddefnyddio data cofrestru a'r ffaith bod y statws cyflogaeth yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Yn achos pobl ifanc 16-18 oed, mae nifer yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn gymharol fach ym mhob awdurdod lleol, sef llai na 100 o ymatebwyr.

Defnyddiwyd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i amcangyfrif cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fesul rhanbarth. Fodd bynnag, gan mai tua 100-400 ym mhob ardal yw maint y samplau yn achos pobl ifanc 16-18 oed, cyfrifwyd cyfartaledd yr amcangyfrifon dros dair blynedd dreigl yn achos pobl ifanc 16-24 oed. Dyma'r rhanbarthau a ddefnyddir:

Gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

Canolbarth Cymru: Powys, Ceredigion

De Orllewin Cymru: Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot

De Ddwyrain Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd

Mae'r arolwg o Gyrchfannau Disgyblion yn darparu amcangyfrif o'r rhai sy'n 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, fesul awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau yn y diffiniadau o'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o gymharu â'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y Datganiad Ystadegol Cyntaf a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

VII. Diwygiadau

Cyfes y Datganiad Ystadegol Cyntaf: Caiff ffigurau dros dro 2017 eu cwblhau ar gyfer cyhoeddiad nesaf y Datganiad Ystadegol Cyntaf a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. O ran y gyfran o bobl ifanc 16-18 oed yr amcangyfrifir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2016, y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif dros dro a gyhoeddwyd yn y datganiad blaenorol a'r amcangyfrif terfynol oedd 0.1 pwynt canran.

Cyfes yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Caiff yr amcangyfrifon hyn o'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eu diwygio pan fo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi setiau data diwygiedig o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

Cynhyrchwyd gan: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Y tro diwethaf y'i hadolygwyd: Ionawr 2019

Cyswllt: ystadegau.addysgol16@llyw.cymru